

# Cymru ac Ewrop

## Casgliad Erthyglau

Pwyllgor y Rhanbarthau – Grŵp Cyswilt y DU, 18 Mawrth 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6472**

E-bost: **[sara.moran2@senedd.cymru](mailto:sara.moran2@senedd.cymru)**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#) | [Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



# Cymru ac Ewrop

## Casgliad Erthyglau

Pwyllgor y Rhanbarthau – Grŵp Cyswilt y DU, 18 Mawrth 2022



## Cynnwys

<b>1. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE: cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru .....</b>	<b>4</b>
<b>2. Sedd wrth y bwrdd: cynrychioli Cymru yn y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE .....</b>	<b>8</b>
<b>3. Aros yng Nghymru? Bron i 100,000 o Ewropeaid yn cael clywed a oes ganddynt hawl i aros.....</b>	<b>16</b>
<b>4. Cymru, Erthygl 16 a Phrotocol Gogledd Iwerddon.....</b>	<b>24</b>
<b>5. Ai dyma ddiwedd glo'r gyfres hon o Brexit?.....</b>	<b>30</b>
<b>6. Wastad yn symud i fyny neu angen ailddechrau'r genhadaeth? Y Papur Codi'r Gwastad a Chymru.....</b>	<b>38</b>
<b>7. Cymru, datganoli a rhwymedigaethau rhyngwladol .....</b>	<b>48</b>
<b>8. Cymru yn y dirwedd rhyngwladol newydd .....</b>	<b>54</b>
<b>9. Y Senedd mewn undod ag Wcráin .....</b>	<b>60</b>
<b>10. Cenedl Noddfa: ymateb i'r argyfwng dyngarol yn Wcráin .....</b>	<b>66</b>



Rydym yn darparu gwybodaeth awdurdodol a diduedd am y pynciau diweddaraf sy'n cael eu hystyried yn Senedd Cymru. Mae'r casgliad hwn o erthyglau yn nodi perthynas Cymru ag Ewrop a'r byd ar gyfer cynrychiolwyr chweched cyfarfod Pwyllgor y Rhanbarthau yr Undeb Ewropeaidd – Grŵp Cyswllt y DU.

Y Senedd yw'r sefydliad cyntaf i gynnal y Grŵp Cyswllt yn y DU. Ei chynrychiolwyr ar y grŵp yw Laura Jones AS ac Alun Davies AS.

Mae'r Grŵp yn dwyn ynghyd aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau ac aelodau o sefydliadau'r DU a oedd yn aelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau cyn Brexit.

Ei nod yw creu deialog a phartneriaeth barhaus rhwng awdurdodau a rhanbarthau yr UE a'r DU ac i gryfhau'r cysylltiadau rhyngddynt. Mae'n ceisio trafod heriau a chyfleoedd cyffredin sy'n deillio o gytundebau rhwng y DU a'r UE a dod o hyd i gyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio mewn meysydd megis ymchwil, datblygu economaidd, twristiaeth a masnach.

Cadeirydd y Grŵp yw Llywydd Llydaw, Loïg Chesnais-Girard, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o:

- Iwerddon, Ffrainc, Gwlad Pwyl, yr Almaen, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, y Weriniaeth Tsiec, Denmarc, Sbaen a Phortiwgal;
- Llywodraeth Gibraltar;
- Y Senedd, Senedd yr Alban a Cynulliad Gogledd Iwerddon; a
- sefydliadau llywodraeth leol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

# Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE: cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru

Cyhoeddwyd: 22 Mehefin 2021

Llun o Bae'r Tri Chlogwyn, Gŵyr









# 1. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE: cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru

*Cyhoeddyd: 22 Mehefin 2021*

Mae cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn cael eu rheoli'n bennaf gan ddau gytuniad allweddol. Mae'r Cytundeb Ymadael yn pennu'r telerau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE ac mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu eu perthynas newydd:

1. **Mae'r Cytundeb Ymadael** yn pennu'r telerau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE.
2. **Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu** yn sefydlu eu perthynas newydd.

Mae'r ddau gytuniad yn cynnwys materion datganoledig y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am eu gweithredu, megis pysgodfeydd, iechyd, yr economi a'r amgylchedd. Mae **ein herthygl ddiweddar** yn rhoi trosolwg o'r berthynas newydd a sut mae'n effeithio ar fywyd yng Nghymru.

Cyhoeddodd y Prif Weinidog ei **gabinet newydd** ym mis Mai 2021. Mae gan bob un o Weinidogion newydd Llywodraeth Cymru gyfrifoldebau i gyflawni trefniadau newydd y DU-UE, er bod hynny'n fwy felly i rai nag eraill.


Mae'r meysydd a gaiff eu cwmpasu gan y ddau gytuniad i'w cael ym mhob adran o Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'u rhwymedigaethau a'u goblygiadau.

Mae ein ffeithlun yn dangos pob Gweinidog a lle mae eu cyfrifoldebau'n cyffwrdd â phrif rannau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a/neu'r Cytundeb Ymadael.\*

Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gysylltiadau rhwng y DU a'r UE gael eu hymgorffori ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a bydd y Senedd yn craffu'n fanwl ar y dull newydd hwn.



Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE: cyfrifoldebau Gweinidogion newydd Cymru



\*Mae'r ddau gytuniad yn gymhleth iawn ac yn cynnwys elfennau trawsbynciol. Crëwyd y ffeithlun hwn gan Ymchwil y Senedd er mwyn dangos Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n bennaf cyfrifol am bob prif faes.



# Sedd wrth y bwrdd: cynrychioli Cymru yn y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE

Cyhoeddwyd: 2 Rhagfyr 2021

Llun o Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro









## 2. Sedd wrth y bwrdd: cynrychioli Cymru yn y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE

*Cyhoeddwyd: 2 Rhagfyr 2021*

Mae cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn cael eu rheoli'n bennaf gan ddau gytuniad:

1. Mae'r **Cytundeb Ymadael** yn pennu'r telerau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE; ac
2. Mae'r **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** (TCA) yn sefydlu eu perthynas newydd.

Mae'r ddau gytuniad yn cynnwys materion datganoledig (fel pysgodfeydd, iechyd, yr economi a'r amgylchedd) y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am eu gweithredu.

Gyda'i gilydd, maent yn sefydlu 32 o fforymau newydd i'r DU a'r UE drafod a phenderfynu sut i weithredu'r cytundebau, **gan gynnwys ar faterion** sydd wedi'u datganoli i Gymru a/neu'n effeithio ar Gymru. **Dim ond dechrau** yw'r broses hon ac mae **Llywodraeth Cymru** a **rhanddeiliaid** wedi pwysleisio pwysigrwydd bod gan Gymru â sedd wrth y bwrdd.

Er mai Llywodraeth y DU sy'n cynrychioli'r DU yn bennaf, mae'r Llywodraethau datganoledig wedi bod i rai cyfarfodydd. Y Comisiwn Ewropeaidd sy'n cynrychioli'r UE, er bod yr **UE wedi cytuno ar drefniadau mewnol** i ganiatáu i Aelod-wladwriaethau fod yn bresennol.

Mae'r erthygl hon yn nodi'r trefniadau newydd ac yn egluro sut mae Cymru wedi cael ei chynrychioli hyd yn hyn. Mae ein herthyglau blaenorol yn rhoi **trosolwg o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu** ac yn dangos **cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru** mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

### Y Cytundeb Ymadael

Mae'r **Cytundeb Ymadael** yn sefydlu wyth fforwm newydd rhwng y DU a'r UE. Y prif fforwm yw'r Cyd-bwyllgor a gefnogir gan chwe Phwyllgor Arbenigol ar y canlynol:


- Hawliau dinasyddion;
- Y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon;
- Y Protocol yn ymwneud â'r Ardaloedd Safleoedd Sofran yng Nghyprus;

- Y Protocol ar Gibraltar;
- Darpariaethau ariannol; a
- Darpariaethau gwahanu eraill.

Sefydlwyd gweithgor ymgynghorol ychwanegol ar y cyd i gynorthwyo'r Pwyllgor Arbenigol ar y Protocol ar Ogledd Iwerddon.

Mae ein ffeithlun yn dangos y fforymau rhwng y DU a'r UE a sefydlwyd gan y Cytundeb Ymadael.

### Fforymau'r DU-UE: Y Cytundeb Ymadael



Hyd yma, cafwyd wyth cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor, a chyhoeddwyd ei **Adroddiad Blynyddol 2020** ym mis Gorffennaf. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o weithgarwch y Cytundeb Ymadael o'r adeg y daeth i rym ar 1 Chwefror 2020 tan ddiwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

### Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Mae'r **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** yn sefydlu 24 fforwm newydd rhwng y DU a'r UE gyda'r opsiwn i sefydlu rhagor. Defnyddiwch y cwymplenni isod i gael gwybod mwy.



## Goruchwyllo

---

Y prif fforwm yw'r Cyngor Partneriaeth, sy'n cael ei gefnogi gan y canlynol:

- 11 o Bwyllgorau Masnach, sy'n cynnwys un Pwyllgor Partneriaethau Masnach a 10 o Bwyllgorau Masnach Arbenigol;
- Wyth Pwyllgor Arbenigol ar feysydd ar wahân i fasnach, megis ynni, pysgodfeydd a thrafnidiaeth;
- Pedwar Gweithgor i gefnogi pwyllgorau ar faterion penodol, megis cynhyrchion meddyginiaethol. Gellir sefydlu rhagor o Weithgorau, fel sy'n cael ei ystyried gan y **Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd**.

## Cymdeithas sifil

---

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu mecanweithiau i'r UE a'r DU ymgysylltu â chymdeithas sifil ar y cyd ac yn rhinwedd eu hunain. Gwneir hyn drwy:

- Fforwm Cymdeithas Sifil newydd y DU-UE; ac
- Ymgynghoriad uniongyrchol â'u Grwpiau Cyngori Domestig eu hunain, a all ddod i'r Fforwm.

**Ymgynghorodd** Llywodraeth y DU ar y gwaith ymgysylltu â grwpiau busnes a chymdeithas sifil, a chyhoeddwyd **Myneiant o Ddiddordeb am aelodaeth** ar gyfer Grŵp Cyngori Domestig unigol y DU. Cynhelir **cyfarfod cyntaf y Grŵp Cyngori Domestig** ym mis Rhagfyr.

## Fforwm seneddol ar y cyd rhwng y DU a'r UE

---

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys opsiwn i sefydlu Cynulliad Partneriaeth Seneddol rhwng Senedd y DU a Senedd Ewrop. Gallai'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol wneud argymhellion a gofyn am wybodaeth gan y Cyngor Partneriaeth a bydd yn cael gwybod am ei benderfyniadau.


Ar 21 Medi, **ymatebodd** cynrychiolwyr o Senedd y DU, yr Arglwydd Kinnoull a Syr Oliver Heald, i **gais gan bwyllgorau** yn y deddfwrfeydd datganoledig, gan ddweud y byddent yn ceisio eu cynnwys yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Ar 16 Tachwedd, **cadarnhaodd Tŷ'r Arglwyddi** y bydd dirprwyaeth y DU yn cynnwys 21 o ASau ac 14 aelod o Dŷ'r Arglwyddi, ac y bydd "arsylwyr" o'r deddfwrfeydd datganoledig yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol, yn amodol ar gytundeb Senedd Ewrop.

**Cytunodd** Senedd Ewrop yn ffurfiol i benodi ei dirprwyaeth a fydd **yn cynnwys 35 Aelod** ar 5 Hydref.

Mae ein ffeithlun yn dangos y fforymau newydd rhwng y DU a'r UE a sefydlwyd gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac a yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan ynddynt.

**Fforymau'r DU-UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu**





## Llywodraethau datganoledig

Mater i'r DU a'r UE yw dethol eu dirprwyaethau eu hunain ar gyfer cyfarfodydd. Ar 1 Gorffennaf, **cadarnhaodd** Llywodraeth y DU y bydd nifer yr aelodau yn ei dirprwyaethau'n amrywio o ran nifer, yn dibynnu ar yr agenda.

Yn dilyn hyn anfonwyd **llythyr gan Arglwydd David Frost o Lywodraeth y DU** at y llywodraethau datganoledig, a oedd yn nodi sut y mae'n bwriadu eu cynnwys yn fforymau'r DU-UE a sefydlwyd gan y ddau gytundeb.

Cadarnhaodd y llythyr y byddai mwyafrif yr fforymau yn cael eu cyd-gadeirio gan swyddogion o'r Adran arweiniol gyfatebol yn Whitehall, gyda chefnogaeth tîm Swyddfa Cabinet yr Arglwydd Frost, ond y gallai llywodraethau datganoledig fod yn bresennol lle mae eitemau sydd o gymhwysedd datganoledig ar yr agenda.

Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i ddisgresiwn terfynol cyd-gadeirydd y DU. Dylai gwaith paratoi ar gyfer cyfarfodydd o'r fath gynnwys **cynrychiolwyr o'r llywodraethau datganoledig** hefyd 'fel mater o drefn arferol'.

Defnyddiwch y cwymplenni isod i gael gwybod mwy am bresenoldeb Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y DU-UE.

## Cyngor Partneriaeth (Cytundeb Masnach a Chydweithredu) a'r Cydbwyllgor (Cytundeb Ymadael)

---

Ar 9 Mehefin, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Roedd Gweinidog Economi **Llywodraeth Cymru**, Vaughan Gething, yn y cyfarfod fel arsylwr. Ar ôl y cyfarfod, **ysgrifennodd at yr Arglwydd Frost** gan ddisgrifio'r sefyllfa fel un hynod anfoddhaol na all Llywodraeth Cymru ei chefnogi.

Yng nghyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael, nad yw Llywodraeth Cymru yn mynd iddynt, ailadroddodd y Gweinidog ei gais i fod yn rhan o'r cyfarfod pan drafodir materion yn ymwneud â Gogledd Iwerddon, o ystyried eu goblygiadau i borthladdoedd Cymru. Ar 23 Tachwedd, cadarnhaodd y Prif Weinidog fod y **cais hwn wedi'i wrthod**.

## Pwyllgorau (Cytundeb Masnach a Chydweithredu)

---

Roedd dirprwyaeth y DU i bwyllgorau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfarfodydd cyntaf ar

gydgysylltu nawdd cymdeithasol, ynni, pysgodfeydd a'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yn ymwneud â masnach. Nid oeddent yn rhan o ddirprwyaeth y DU yn y **cyfarfod ar gaffael cyhoeddus**, sef maes datganoledig, nac ar eiddo deallusol, sef mater a gadwyd yn ôl.

Nid yw'r wybodaeth am y rhai a oedd yn bresennol yn y **cyfarfodydd sy'n weddill** a gynhaliwyd ers hynny ar gael i'r cyhoedd eto.

## **Cyswllt uniongyrchol rhwng y llywodraethau datganoledig a'r UE**

---

Pwysleisiodd llythyr yr Arglwydd Frost y dylai'r llywodraethau datganoledig hysbysu llywodraeth y DU o ffaith a chynnwys eu cyswllt uniongyrchol â sefydliadau'r UE a/neu Aelod-wladwriaethau.

Mae cyswllt uniongyrchol rhwng Cymru a'r UE wedi parhau. Ym mis Ionawr, ysgrifennodd y Prif Weinidog at Ursula von der Leyen, Llywydd Comisiwn yr UE, yn nodi ei weledigaeth gadarnhaol ar gyfer ymgysylltiad adeiladol rhwng Cymru a'r UE. **Dywedodd** wrth y Senedd yn ddiweddar hefyd sut mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cadw cysylltiad ffurfiol â sefydliadau'r UE ac ASEau, a:

Bydd penodi Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Ewrop cyn hir, a hysbysebwyd yn ddiweddar, yn ychwanegu dimensiwn ychwanegol cadarnhaol a sylweddol at hyn.

Mae rhanddeiliaid wedi nodi pwysigrwydd cynrychiolaeth o Gymru yn strwythurau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mewn **ymateb ar y cyd i ymgynghoriad**, dywedodd Canolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wrth y Senedd:

Given the intersections between the TCA and devolved competence, it is important that UK representation in [UK-EU] structures is inclusive of perspectives from Wales.

Bydd y Senedd yn parhau i fonitro sut mae Cymru yn cael ei chynrychioli yn y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE.



# **Aros yng Nghymru? Bron i 100,000 o Ewropeaid yn cael clywed a oes ganddynt hawl i aros**

Cyhoeddwyd: 11 Mawrth 2022

Llun o Gronfa Ddŵr Ponsticill, Parc Cenedlaethol Bannau  
Brycheiniog









### 3. Aros yng Nghymru? Bron i 100,000 o Ewropeaid yn cael clywed a oes ganddynt hawl i aros

Cyhoeddwyd: 11 Mawrth 2022

Roedd angen i ddinasyddion Ewropeaidd oedd yn byw yng Nghymru cyn Brexit wneud cais erbyn 30 Mehefin 2021 i aros yn y wlad. Erbyn 31 Ionawr 2022, gwnaed dros **6.4 miliwn o geisiadau** i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Mae'r Cynllun Preswyllo yn dal yn agored i wneud **ceisiadau hwyr**, ac ail geisiadau gan y rhai sy'n ceisio trosi statws dros dro yn un parhaol.

Mae hawliau dinasyddion Ewropeaidd yn cael eu diogelu gan **Gytundeb Ymadael y DU-UE**, a chytundebau eraill gyda **gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE**, fel rhan o broses Brexit. Mae'r DU a'r UE yn anghytuno ar sut y caiff y cytuniadau eu dehongli. **Jane Hutt, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru**, sy'n gyfrifol am weithgareddau sy'n ymwneud â'r Cynllun yng Nghymru.

Mae'r erthygl hon yn trafod ceisiadau gan ddinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru gan ddefnyddio'r ystadegau diweddaraf (hyd at 31 Rhagfyr 2021). Mae'n egluro'r anghydfod parhaus rhwng y DU a'r UE ynghylch hawliau eu dinasyddion, ac mae'n crynhoi rhai datblygiadau yn nes adref.

Roedd ein herthygl flaenorol yn trafod ceisiadau a gafwyd yn syth ar ôl y dyddiad cau.

#### Trosolwg

Gwnaed **104,040 o geisiadau** o Gymru, yn cynnwys **18,060 o geisiadau** gan rai dan 18 oed. Penderfynwyd ar ganlyniad **99,860 o geisiadau** erbyn diwedd 2021.

Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cael statws naill ai 'preswyllydd sefydlog' neu 'breswyllydd cyn sefydlu'.

**Statws preswyllydd sefydlog:** Rhoddir statws preswyllydd sefydlog i ddinasyddion Ewropeaidd sydd wedi byw yn y DU am fwy na phum mlynedd, a chânt aros yng Nghymru cyn hired ag yr hoffent, gyda rhai eithriadau.



**Statws preswyllydd cyn sefydlu:** Rhoddir statws 'preswyllydd cyn sefydlu' i ddinasyddion Ewrop sydd wedi byw yn y DU am lai na phum mlynedd, ond a

gyrhaeddodd y DU cyn 31 Rhagfyr 2020. Daw hyn i ben ar ôl pum mlynedd, a **rhaidd trosi** i statws preswlydd sefydlog trwy ail gais. Mae methiant i ailymgeisio yn arwain at berson yn colli'r hawl i weithio, cael mynediad at dai, addysg a budd-daliadau yn awtomatig, a gallent fod mewn perygl o gael eu symud o'r DU.

Mae'r **UE yn dadlau yn erbyn hyn**, ac mae hefyd **yn destun her** ar lefel ddomestig gan y corff sy'n gyfrifol am fonitro hawliau dinasyddion Ewropeaidd yn y DU, yr Awdurdod Monitro Annibynnol.

Mae ein ffeithlun yn dangos canran a nifer y ceisiadau o Gymru. Mae'n dangos a ddaethant i law cyn neu ar ôl y dyddiad cau, a gawsant benderfyniad ai peidio a chanlyniad ceisiadau.

### Ceisiadau i'r Cynllun o Gymru yn ôl dyddiad, ceisiadau a gwblhawyd a chanlyniadau yn ôl canran a nifer



Ffynhonnell: Llywodraeth y DU **Ystadegau chwarterol Cynllun Preswlyo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, Rhagfyr 2021**


### Dinasyddion â statws preswlywyr cyn sefydlu

Mae statws preswlydd cyn sefydlu yn dod i ben ar ôl pum mlynedd. Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r 36,970 o ddinasyddion yng Nghymru sydd â statws



preswylwyr cyn sefydlu wneud ail gais am statws sefydlog os ydynt am aros y tu hwnt i bum mlynedd.

Mae'r map rhyngweithiol isod yn dangos nifer y dinasyddion â statws cyn sefydlu ym mhob **ardal awdurdod lleol yng Nghymru** ar 31 Rhagfyr 2021:



Ffynhonnell: Llywodraeth y DU **Ystadegau chwarterol Cynllun Preswlio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, Rhagfyr 2021**


Mae nifer y rhai sy'n gwneud cais i drosi eu statws o statws 'preswlydd cyn sefydlu' i statws 'preswlydd sefydlog' wedi'i nodi mewn ystadegau ar geisiadau ailadroddus. Mae ystadegau ar gyfer y DU gyfan yn dangos bod **289,180 o ddinasyddion â statws preswylwyr cyn sefydlu** wedi ennill statws preswylwyr sefydlog. Ni ddarperir gwybodaeth fesul gwlad y DU. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gwybod faint o geisiadau sydd wedi dod i law gan ddinasyddion 'cyn sefydlu' yng Nghymru sy'n ceisio trosi eu statws. Gofynnodd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd i Lywodraeth Cymru a oedd ganddi ragor o wybodaeth i'r perwyl hwn, ond ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth.

## Ceisiadau hwyr

Caniateir ceisiadau hwyr ar gyfer y rhai sydd â **sail resymol** am gollir dyddiad cau, **er enghraifft** rhiant sydd wedi methu â gwneud cais ar ran plentyn neu rywun sydd â chyflwr meddygol difrifol. Mae Llywodraeth y DU **wedi addo** diogelu hawliau pobl sy'n gwneud cais hwyr hyd nes y penderfynir ar eu cais, ac unrhyw apêl.

Cynyddodd nifer y ceisiadau hwyr o Gymru o 2,340 ar 30 Medi i 4,200 ar 31 Rhagfyr 2021. Ym mis Hydref, cafwyd 790 o geisiadau hwyr, ac yna 570 ym mis Tachwedd a 510 ym mis Rhagfyr. Mae'r siart isod yn dangos sut y cafwyd ym mis Rhagfyr y nifer isaf o geisiadau gan Gymru ers i'r Cynllun agor ym mis Mawrth 2019.

**Ceisiadau misol a gafwyd yng Nghymru ar gyfer y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**



Ffynhonnell: Llywodraeth y DU **Ystadegau chwarterol Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, Rhagfyr 2021**



## Mae materion rhwng y DU a'r UE yn parhau oherwydd dehongliadau gwahanol o'r Cytundeb Ymadael

Mae'r DU a'r UE yn cwrdd yn rheolaidd i drafod hawliau dinasyddion. **Cynhelir cyfarfodydd** yng Nghyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael a'i Bwyllgor Arbenigol ar Hawliau Dinasyddion. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bresennol yn y cyfarfodydd, ond **mae'n cwrdd bob pythefnos** gyda Llywodraeth y DU i drafod y Cynllun Preswyllo.

Yn dilyn cyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 21 Chwefror, **disgrifiodd y DU a'r UE hawliau dinasyddion** i fod yn "brif flaenoriaeth" a gwnaed gwaith pellach ar y pryderon a rannwyd yng **ngyfarfod y Pwyllgor Arbenigol ym mis Ionawr.**

Mae'r UE yn pryderu am ddinasyddion yn colli statws yn awtomatig yn y DU o ganlyniad i fethu â throsi o fod yn breswlydd cyn sefydlu i fod yn breswlydd sefydlog mewn pryd, a'r diffyg sicrwydd cyfreithiol i ddinasyddion yr UE. Mae gan y DU bryderon ynghylch cynlluniau cilyddol Aelod-wladwriaethau'r UE, gan gynnwys diffyg manylion polisi, canllawiau a hyblygrwydd. Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer canol 2022.

O dan y **Cytundeb Ymadael**, gellir uwchgyfeirio anghydfodau ynghylch hawliau dinasyddion i dribiwnlys cyflafareddu, a all ofyn am ddyfarniad gan Lys Cyfiawnder yr UE mewn rhai amgylchiadau.

## Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu unrhyw wybodaeth newydd â'r Senedd

Mewn ymateb i ohebiaeth gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, **esboniodd y Gweinidog** fod y Cynllun Preswyllo "yn parhau i fod yn flaenoriaeth". **Dywedodd** fod Grŵp Cydgysylltu y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog wedi cytuno i gais y Pwyllgor i rannu cofnodion ei gyfarfodydd cyhyd ag y bydd y grŵp yn parhau i gyfarfod.

Ar 3 Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog hefyd fod **cyngor a chefnogaeth rhad ac am ddim gan Lywodraeth Cymru**, sydd ar gael i ddinasyddion Ewropeaidd, **wedi ei ymestyn** tan "o leiaf" 30 Medi 2022. Esboniodd y bydd yr estyniad yn "sicrhau bod gwasanaethau'n gallu darparu cymorth i ddinasyddion, gan gynnwys gwladolion Wcráin, y gallai fod arnynt eisiau ymuno ag aelodau o'r teulu sydd eisoes wedi ymgartrefu yma yng Nghymru." Mae hyn yn rhan o'r gefnogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i **ymosodiad Rwsia ar Wcráin**.

## Cynhelir cyfarfod rhwng y DU a'r UE yn y Senedd yr wythnos nesaf

Ar 18 Mawrth, bydd y Senedd yn cynnal Cyfarfod Grŵp Cyswllt y DU o **Bwyllgor Rhanbarthau'r UE**. Sefydlwyd y grŵp ar ôl Brexit i hwyluso cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol a rhanbarthol yn yr UE a dinasoedd, rhanbarthau a llywodraethau datganoledig y DU. Cynrychiolir y Senedd gan Laura Anne Jones AS ac Alun Davies AS.

Bydd y cyfarfod yn croesawu cynrychiolwyr o bob rhan o'r UE i gwrdd ag Aelodau'r Senedd a Llywodraeth Cymru. Bydd hawliau dinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yn y DU a dinasyddion y DU sy'n byw mewn gwledydd Ewropeaidd yn rhan o'r trafodaethau.



# Cymru, Erthygl 16 a Phrotocol Gogledd Iwerddon

Cyhoeddwyd: 24 Tachwedd 2021

Llun o Castell Conwy, Conwy









## 4. Cymru, Erthygl 16 a Phrotocol Gogledd Iwerddon

*Cyhoeddwyd: 24 Tachwedd 2021*

Mae Protocol Gogledd Iwerddon ("y Protocol") yn rhan o'r **Cytundeb Ymadael**, sy'n gosod telerau ymadawiad y DU â'r UE. Sefydlodd drefniadau newydd ar gyfer tir y DU-UE sy'n ffinio rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon, un o Aelod-wladwriaethau'r UE.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi galw ar yr UE i aildrafod y Protocol oherwydd ei fod yn arwain at nifer o broblemau. **Mae'n rhestru** rhai ohonynt fel amhariad ar gadwyni cyflenwi, costau uwch, a llai o ddewis i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r Arglywydd David Frost wedi **rhybuddio dro ar ôl tro**, ac yn fwyaf diweddar ar 20 Tachwedd, y gallai'r DU ddefnyddio Erthygl 16 os na wneir newidiadau i'r Protocol. Mae erthygl 16 yn caniatáu cymryd mesurau diogelu os yw'r Protocol yn arwain at rai anawsterau, neu at ddargyfeiriadau masnach. **Mae Prif Weinidog Cymru wedi dweud** y byddai hyn yn gwneud sefyllfa anodd yn waeth yn hytrach na'n well, ac y dylid ei osgoi.

Mae'r erthygl hon yn egluro Erthygl 16, sut mae'n ymwneud â newidiadau i'r Protocol yn y dyfodol a pham ei bod yn bwysig i Gymru.

### **Pam mae Llywodraeth y DU eisiau newid y Protocol?**

Cytunwyd ar y Protocol yn 2019 ond nid yw ar waith yn llawn eto oherwydd bod y DU a'r UE yn anghytuno ar sut y dylai'r trefniadau newydd weithio.

Mae gwiriadau newydd ar y ffiniau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon naill ai wedi'u gohirio ar y cyd gan y DU a'r UE, neu wedi'u gohirio'n unochrog gan y DU. Mae hyn yn golygu nad yw effaith lawn y Protocol wedi ei theimlo eto.

### **Protocol Gogledd Iwerddon: eglurhad**

---

Cytunwyd yn y Protocol y byddai Gogledd Iwerddon yn parhau i ddilyn rhai o reolau'r UE, tra gallai gweddill y DU (fel Prydain Fawr) newid ei rheolau.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r gwiriadau sydd fel rheol yn ofynnol gan yr UE ar



gynhyrchion sy'n dod i mewn i'w farchnad gael eu cynnal wrth gyrraedd Gogledd Iwerddon o Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r BBC wedi cynhyrchu ffeithlun i ddangos hyn.

Dywedir weithiau fod hyn fel petai wedi creu ffin ym Môr Iwerddon.

Mae'r trefniadau'n ei gwneud yn ofynnol i borthladdoedd Cymru sefydlu swyddi rheoli ffiniau newydd, a ddisgrifir gan Lywodraeth Cymru fel un o'r rhaglenni cyflenwi seilwaith mwyaf a mwyaf cymhleth y mae'n ymwneud ag ef.

Mae Llywodraeth y DU eisiau **aildrafod y Protocol** oherwydd ei fod yn anhapus â rhai o'i delerau a'r **effeithiau y maent yn eu cael**. Mae'r UE wedi dweud na fydd yn ailtrafod y Protocol ond ei fod yn barod i **drafod atebion** gyda'r DU. Mae'r ddau wedi cyflwyno cynigion ar sut i ddatrys y sefyllfa ac mae trafodaethau'n parhau.

## Ble mae Erthygl 16 yn dod i mewn?

Nid yw erthygl 16 yn darparu ar gyfer ailtrafod na gwneud newidiadau parhaol i'r Protocol.

Yn hytrach, mae'n caniatáu i'r DU a'r UE gymryd mesurau diogelu os yw'r Protocol yn arwain at rai anawsterau, neu at ddargyfeiriadau masnach. Disgrifir hyn fel:

anawsterau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol difrifol sy'n debygol o barhau.

Os yw naill ai'r DU neu'r UE yn credu bod y Protocol wedi arwain at anawsterau o'r fath, neu at ddargyfeiriadau masnach, gallant ddefnyddio mesurau diogelu i geisio unioni'r sefyllfa. Mae erthygl 16 hefyd yn darparu y gall y parti arall ymateb i fesurau diogelu gyda'i fesurau ail-gydbwysu ei hun.

Mae Atodiad 7 y Protocol yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn gan y DU a'r UE wrth ddefnyddio Erthygl 16.

## Pa fath o fesurau y gellid eu cymryd?

Nid yw erthygl 16 yn disgrifio pa fesurau a ganiateir, ond mae'n gosod rhai rheolau ar gyfer mesurau:

### Mesurau Erthygl 16

Mae'n rhaid i **fesurau diogelu** fod yn "briodol" ac wedi'u cyfyngu o ran eu cwmpas a'u hyd i'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol i unioni'r sefyllfa.

Mae'n rhaid i **fesurau ail-gydbwysu** fod yn "gymesur" ac yn gwbl angenrheidiol i unioni anghydbwysedd a achosir gan fesurau diogelu.

**I'r ddau**, mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i fesurau sy'n tarfu leiaf ar y Protocol yn gyffredinol.

Yn ei gynigion, a nodir mewn **papur gorchymyn**, mae Llywodraeth y DU yn cysylltu Erthygl 16 â newid y Protocol:

Yn hytrach na defnyddio Erthygl 16, byddai'n well gennym ddod o hyd i lwybr cydsyniol. Bellach, mae angen sgysiau brys a all geisio dod o hyd i gydbwysedd newydd ar gyfer y Protocol.

Fodd bynnag, mae academyddion wedi nodi nad yw mesurau Erthygl 16 yn darparu opsiwn i aildrafod neu newid y Protocol. Dywed **Yr Athro Robert Howse** o Ysgol y Gyfraith Prifysgol Efrog Newydd nad yw Erthygl 16:

yn fath o ddarpariaeth a gynlluniwyd i sbarduno aildrafod na hyd yn oed wneud addasiadau parhaol i ymrwymadau neu fecanweithiau penodol yn y Protocol.

Mae'r UE wedi dweud yn ei gynigion ei fod am ddod o hyd i ateb "parhaol".

## Sut gallai hyn effeithio ar Gymru?

Bydd y ffordd y caiff anghytundebau mewn perthynas â'r Protocol eu datrys yn cael effaith sylweddol ar Gymru, gan gynnwys ei masnachwyr, allforwyr, porthladdoedd a phobl.

- 1. Os caiff Erthygl 16 ei rhoi mewn grym**, bydd yr effaith ar Gymru yn dibynnu ar ba fesurau diogelu a ddewisir. Yn yr un modd ar gyfer mesurau ail-gydbwysu posibl yr UE mewn ymateb, os cymerir mesurau o'r fath. Mae rhai cyfryngau, **gan gynnwys Euronews**, wedi awgrymu y gallai'r UE atal **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** y DU-UE, y cytundeb sy'n sefydlu eu perthynas newydd.

**Dywedodd yr Arglwydd Frost** wrth Dŷ'r Arglwyddi ym mis Hydref ei fod yn disgwyl y byddai mesurau Erthygl 16 yn cael eu gweithredu drwy is-ddeddfwriaeth. Gallai hyn ofyn am weithredu gan Lywodraeth Cymru.

**Dywedodd y Prif Weinidog** ddydd Gwener y byddai masnach Cymru yn cael ei heffeithio'n arbennig o wael gan unrhyw ddirywiad mewn cysylltiadau masnachu rhwng y DU a'r UE. Dywedodd y byddai sbarduno Erthygl 16 yn gwneud sefyllfa anodd yn waeth, nid yn well, a bod gan Gymru ddi-ddordeb uniongyrchol mewn gweld bod sbarduno Erthygl 16 yn cael ei osgoi.

**2. Os gwneir newidiadau i'r Protocol**, bydd y graddau y maent yn effeithio ar Gymru hefyd yn dibynnu ar natur newidiadau o'r fath. Er enghraifft, mae'r DU eisiau disodli rheolau rheoli cymorthdaliadau y Protocol a symleiddio'r rheolau presennol ar gyfer masnach rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, a ddisgrifir fel beichiau yn ei **bapur gorchymyn**. Gallai newidiadau a wneir gan ddeddfwriaeth y DU ei gwneud yn ofynnol i gael ystyriaeth Llywodraeth Cymru a / neu'r Senedd.

Dywedir bod yr anghydfod wedi arwain at oedi cyn cwblhau cyfranogiad y DU yn rhaglenni ymchwil a gofod yr UE, a **Mariya Gabriel, Comisiynydd yr UE**, yn dweud bod angen mynd i'r afael â materion eraill y DU-UE yn gyntaf. Mae hyn wedi arwain at oedi cyn talu i **ymchwilwyr a chwmnïau'r DU** ac yn ddiweddar achosodd i **Brifysgol Caerdydd** leisio ei phryderon.

Gallai materion o fewn cylch gwaith y Senedd hefyd gael eu heffeithio, gan gynnwys trefniadau ehangach y **DU-UE**, y **rhaglen fframweithiau cyffredin**, gweithrediad **Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020** a darnau eraill o ddeddfwriaeth ar ôl Brexit, a **materion allanol**.



# **Ai dyma ddiweddglo'r gyfres hon o Brexit?**

Cyhoeddwyd: 12 Mai 2021

Llun o Aberystwyth, Ceredigion









## 5. Ai dyma ddiwedd glo'r gyfres hon o Brexit?

*Cyhoeddwyd: 12 Mai 2021*

I lawer o bobl, roedd y cyhoeddiad ar Noswyl Nadolig 2020 fod y DU a'r UE wedi taro cytundeb yn cau pen y mwdwl ar ddrama hirfaith y negodiadau Brexit. Mewn gwirionedd, mae'r cytundeb ond yn amlinelliad bras o'r bennod nesaf yn y ddrama hon, sef y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Bydd hynt a helynt y berthynas hon, o ran ei goblygiadau ymarferol, yn rhan allweddol o stori'r Chweched Senedd.

Ar yr olwg gyntaf, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn gytundeb masnach rydd fel unrhyw gytundeb arall o'i fath. Ac eto, mae'n llawer mwy na hynny. Mae'n cynnwys llawer o feysydd nad ydynt, fel rheol, yn cael eu cynnwys mewn cytundebau masnach, fel iechyd a nawdd cymdeithasol. Mae telerau'r cytundeb yn hir ac yn gymhleth ac yn rhai sy'n cydblethu. Mae mwyafrif ei ddarpariaethau yn effeithio ar feysydd sy'n gorwedd o fewn cyfrifoldebau'r Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys pysgodfeydd ac yswiriant gofal iechyd.

Nid oes eglurder eto ynglŷn â llawer o'r manylion ynghylch sut y bydd y cytundeb yn gweithio'n ymarferol. Mae busnesau a dinasyddion Cymru yn parhau i wynebu ansicrwydd ynghylch yr hyn y mae'r cytundeb yn ei olygu iddyn nhw.

Yn ystod y Chweched Senedd, mae'n bosibl y byddwn yn gweld bod y ddrama hon ymhell o fod ar ben.













### **Beth sydd wedi cael ei gytuno a beth mae hyn yn ei olygu i Gymru?**

Mae'r **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** yn gosod y sylfaen ar gyfer perthynas newydd y DU a'r UE. Mae'n dilyn y **Cytundeb Ymadael**, sy'n pennu'r telerau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn ddigynsail gan ei fod yn ailddiffinio'r berthynas rhwng y DU a'r UE, a hynny mewn modd sy'n cynyddu'r pellter rhyngddynt yn hytrach na'u dwyn ynghyd.

Er bod y cytundeb yn ymwneud â llawer o feysydd lle mae'r DU a'r UE yn cydweithredu, nid yw rhai o'r trefniadau pwysig eto wedi cael eu cadarnhau.

## Meysydd y mae'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE yn berthnasol iddynt

			
Masnach mewn nwyddau	Masnach mewn gwasanaethau	Tegwch yn y farchnad	Trafnidiaeth
			
Cyd-drefnu nawdd cymdeithasol	Pysgodfeydd	Gorfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol	Cyfranogi yn rhaglenni'r UE
			
Diogelwch iechyd	Seiberddiogelwch	Niwclear sifil	Cytundeb ar Ddiogelwch Gwybodaeth

Ffynhonnell: [Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE](#)

Bydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llywio sawl agwedd ar fywyd yng Nghymru, fel yr amgylchedd busnes a masnach, pysgodfeydd, iechyd a theithio.

### Busnes a masnach

Mae'r modd y mae'r DU yn masnachu â'r UE wedi newid yn sylfaenol. Fel rhan o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae'r DU a'r UE wedi cytuno na fydd tariffau na chwotâu yn cael eu cymhwyso i fasnach mewn nwyddau – ar yr amod bod masnachwyr yn cydymffurfio â'r **rheolau tarddiad**. Fodd bynnag, mae yna **rwystrau di-dariff** newydd sydd wedi creu costau uwch i fusnesau. Mae rhai sectorau, **fel cynhyrchwyr pysgod cregyn**, hefyd wedi methu â gwerthu eu cynnyrch i'r UE yn sgil ei rheolau ar fasnachu â thrydydd gwledydd.

Cyflwynodd yr UE reolaethau ffiniau llawn mewn perthynas â nwyddau o Brydain Fawr ar 1 Ionawr. Yn y cyfamser, bydd y DU yn cyflwyno ei rheolaethau ffiniau fesul cam tan fis Mawrth 2022. Bydd angen adeiladu seilwaith newydd ar y ffin



yngh Nghymru, a bydd gan Lywodraeth newydd Cymru rai cyfrifoldebau mewn perthynas â phrosesau ar y ffin, megis gwiriadau ar anifeiliaid.

Mae **Llywodraeth flaenorol Cymru wedi dweud**: “Ni fydd union effaith y TCA yn glir am gyfnod mewn sawl maes”. Bydd angen i'r Chweched Senedd fonitro'n ofalus yr effaith ar fusnesau Cymru sy'n masnachu â'r UE, yn ogystal â chraffu ar sut mae Llywodraeth newydd Cymru yn ymgymryd â'i chyfrifoldebau.

## Yr amgylchedd a pysgodfeydd

Mae cydweithredu amgylcheddol wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu mewn sawl ffordd. Ar y naill law, mae'n rhan o'r 'cae chwarae gwastad', fel y'i gelwir, ar gyfer sicrhau cystadleuaeth deg rhwng y DU a'r UE, a sicrhau nad oes modd gostwng safonau heb ddirodd canlyniadau. Ar y llaw arall, mae'r bartneriaeth gyfan yn seiliedig ar ymrwymiad i fynd i'r afael â newid hinsawdd, sy'n elfen hanfodol o'r cytundeb hwn a phob cytundeb rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Roedd y trefniadau ar gyfer pysgodfeydd yn faen tramgwydd yn y trafodaethau, ond fe drawyd cytundeb yn y pendraw. Mae un o'r trefniadau newydd yn darparu y bydd 25 y cant o gwota'r UE yn nyfroedd y DU yn cael ei drosglwyddo i'r DU dros gyfnod o bum mlynedd a hanner. Mae sawl rhan arall o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer pysgodfeydd. Er enghraifft, os yw'r DU neu'r UE yn cyfyngu ar y mynediad a ganiateir i'w dyfroedd, gall y llall daro'r pwyth yn ôl drwy'r defnydd o dariffau. Neu, os bydd un ochr yn penderfynu rhoi terfyn ar y trefniadau ar gyfer pysgodfeydd, bydd y trefniadau ar gyfer hedfan a chlodiant ar y ffyrdd hefyd yn dod i ben.

## Iechyd

Mae gwahanol fathau o gydweithredu rhwng y DU a'r UE ym maes iechyd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Er enghraifft, mae dyletswydd gyffredinol i gydweithredu ar fygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd. Yn ogystal, mae darpariaethau penodol sy'n sicrhau bod Cardiau Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn parhau i fod yn ddilys tan iddynt ddod i ben, ynghyd â darpariaethau ar hawliau dinasyddion y DU sy'n teithio yn yr UE i gael mynediad at rai mathau o ofal iechyd, ac i'r gwrthwyneb.

## Teithio

Mae'r rheolau ar deithio o Gymru i wledydd yr UE, y Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ a

Liechtenstein at ddibenion gwyliau, gwaith, astudio a phreswyllo **wedi newid** o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'r newidiadau yn cynnwys gofynion o ran fisâu a hawlenni (yn dibynnu ar hyd yr arhosiad, a'r wlad y mae'r person dan sylw yn ymweld â hi), gwiriadau ychwanegol ar deithwyr a rheolau newydd ar gyfer gyrru, teithio gydag anifeiliaid anwes, trawsrwydweithio symudol, a'r drefn iawndal os yw rhywbeth yn tarfu ar daith.

## Ar y gorwel

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys nifer o derfynau amser sy'n ymwneud â phenderfyniadau na chawsant eu gwneud ym mis Rhagfyr 2020, gan gynnwys sefydlu cyrff newydd i roi'r cytundeb ar waith ac i adolygu rhai o'i ddarpariaethau. Mae rhai o'r terfynau amser pwysig hyn yn digwydd yn ystod tymor y Senedd hon.

Mae'r cytundeb yn sefydlu 24 o bwyllgorau a gweithgorau rhwng y DU a'r UE. Byddant yn chwarae rhan strategol hanfodol yn y broses o oruchwyllo a gweithredu'r cytundeb, yn ogystal â'r broses o bennu ei gyfeiriad a'i gynnwys yn y dyfodol. Nid oes cytundeb eto ynghylch eu haelodaeth, gan gynnwys y rôl y bydd Llywodraethau datganoledig yn ei chwarae. Bydd Cynulliad Partneriaeth Seneddol rhwng y DU a'r UE hefyd yn cael ei sefydlu. Mae trafodaethau **ynghylch ei ffurf** a'r modd y bydd yn ymgysylltu â'r deddfwrfeydd datganoledig yn mynd rhagddynt.

Mae angen cynnal adolygiad ar y cyd o'r cytundebau sy'n bodoli rhwng y DU a'r UE bob pum mlynedd. Mae'r cytundeb hefyd yn caniatáu i'r DU neu'r UE alw am adolygiad o ddarpariaethau masnach y cytundeb ar ôl cyfnod o bedair blynedd, os yw'r naill ochr neu'r llall o'r farn nad yw'r ymrwymadau ynghylch cystadleuaeth deg yn cael eu hanrhydeddu. Gallai hyn arwain at newidiadau pellach yn y berthynas fasnach. Byddai modd cynnwys rhannau eraill o'r cytundeb yn yr adolygiad hwn hefyd.

Mae'r cytundeb yn gymhleth, ac mae llawer o ddarpariaethau ynddo nad ydynt eto wedi cael eu profi ar lawr gwlad. Mae'r broses o gytuno ar sut y dylid dehongli'r testun, a sut y dylai'r cytundeb weithredu'n ymarferol, yn debygol o gymryd cryn amser. Er enghraifft, mae'r cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff goruchwyllo'r DU a'r UE ym maes yr amgylchedd gynnal cyfarfodydd rheolaidd a chydweithio at ddibenion gorfodi ymrwymadau amgylcheddol y cytundeb mewn modd effeithiol. Hyd yn hyn, nid oes penderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch ffurf y cyfarfodydd hyn, pwy fydd yn cymryd rhan a pha rôl fydd gan reoleiddwyr datganoledig.

Yn ogystal, bydd trafodaethau'n parhau mewn perthynas â **rhai meysydd** sy'n



bwysig i Gymru ond lle na chafwyd cytundeb yn eu cylch. Mae'r rhain yn cynnwys enwau gwarchoddedig ar gyfer bwyd a diod o Gymru, rhaglenni cyllido'r UE, a'r mater o gyd-gydnabod cymwysterau proffesiynol (MRPQ).

## “Llawer mwy i’w wneud”

Mae rhestr hir o dasgau ar gyfer y Chweched Senedd mewn perthynas â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a gwaith ymgysylltu'r Senedd ag Ewrop yn y dyfodol. Fel y dywedodd **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Bumed Senedd, mae llawer mwy i'w wneud o ran asesu'r goblygiadau i Gymru.

Mae'r cytundeb yn newydd a heb ei brofi. Nid yw'r manylion ynghylch y modd y caiff ei weithredu'n ymarferol wedi cael eu cytuno. Mae'r cytundeb yn un deinamig a fydd yn esblygu ac yn cael ei adolygu yn ystod y Senedd hon. Mae cydberthnasau newydd yn ymsefydlu, a bydd angen i'r Senedd a Llywodraeth Cymru ddiffinio'r cydberthnasau hyn a'u rôl newydd ynddynt. Bydd effaith y berthynas newydd hon ar gyfansoddiad y DU, a'r effaith ar sefyllfa Cymru yn y byd, yn dod i'r amlwg yn ystod y Chweched Senedd.

Er mai mis Rhagfyr 2020 oedd diwedd glo cyfres 1 o ddrama Brexit, dim ond megis dechrau y mae cyfres 2, sef 'Brexit: y berthynas newydd.'







# Wastad yn symud i fyny neu angen aidddechrau'r genhadaeth? Y Papur Codi'r Gwastad a Chymru

Cyhoeddwyd: 16 Chwefror 2022

Llun o Amgueddfa Glo Big Pit, Blaenavon







## 6. Wastad yn symud i fyny neu angen ailddechrau'r genhadaeth? Y Papur Codi'r Gwastad a Chymru


*Cyhoeddwyd: 16 Chwefror 2022*

Rydym wedi clywed llawer am uchelgais Llywodraeth y DU i godi'r gwastad mewn gwahanol rannau o'r DU, ond llai am sut y caiff hyn ei gyflawni tan yn ddiweddar. Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **Phapur Gwyn Codi'r Gwastad**, gan nodi'r camau nesaf yn ei chynlluniau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn seiliedig ar leoedd.


### **Beth yw'r anghydraddoldebau rhanbarthol allweddol y mae Llywodraeth y DU am eu datrys?**

**Mae yna anghydraddoldebau hirdymor a sefydledig rhwng lleoedd yn y DU** mewn perthynas â'r economi, addysg, sgiliau, iechyd a thai. O ran dangosyddion economaidd fel cynhyrchiant ac incwm y pen, mae Llywodraeth y DU **yn nodi** bod mwy o anghydraddoldebau yn y DU nag mewn llawer o genhedloedd cymaradwy.

Gan edrych ar y metrigau allweddol y mae Llywodraeth y DU wedi'u defnyddio yn ei Phapur Gwyn, mae Cymru'n perfformio'n is na chyfartaledd y DU mewn perthynas â chynhyrchiant, enillion, sgiliau a disgwyliad oes iach. Fodd bynnag, mae amrywiaeth sylweddol rhwng gwahanol rannau o Gymru, gyda'r Cymoedd ac ardaloedd gwledig yn fwyaf tebygol o gael eu hystyried 'wedi'u gadael ar ôl' yn nadansoddiad Llywodraeth y DU.

**Ffigwr 1: Cynhyrchiant fesul awr a weithiwyd fel canran o gyfartaledd y DU, 2019**


Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Cynhyrchiant llafur rhanbarthol blynyddol](#)

**Ffigwr 2: Enillion wythnosol gros canolrifol yn ôl cenedl neu ranbarth preswyl, 2021 (£)**

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Enillion Gweithwyr 2021 - Tabl 8](#)




**Ffiwr 3: Canran y preswylwyr 16-64 oed svdd â chymwysterau lefel 3+. 2020**




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, **NOMIS - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth**

**Ffiwr 4: Disgwyliad oes iach adeg geni yn ôl cenedl y DU, 2017-19**



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Disgwyliadau oes cyflwr iechyd, y DU: 2017 i 2019**

Ffigwr 5: Pa ardaloedd o Gymru sydd fwyaf 'wedi'u gadael ar ôl' gan ddefnyddio metrigau allweddol Llywodraeth y DU?



Ffynhonnell: Llywodraeth y DU, **Papur Gwyn Codi'r Gwastad** (ffigur 1.13, tudalen 18)

## Sut mae Llywodraeth y DU yn codi'r gwastad, a sut mae ei chynigion yn rhyngweithio â'r setliad datganoli?

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd angen i'r gwaith o godi'r gwastad fod yn 'eang, dwfn a hirdymor'. **Mae'r Papur Gwyn** yn nodi **pedair ffordd y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio codi'r gwastad yn y DU:**

1. hybu cynhyrchiant, cyflog, swyddi a safonau byw drwy dyfu'r sector preifat, yn



enwedig yn y manau hynny sydd ar ei hôl hi;

2. ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn y manau hynny lle maent ar eu gwannaf;
3. adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig yn y manau hynny lle maent wedi cael eu colli; a
4. grymuso arweinwyr a chymunedau lleol, yn enwedig yn y manau hynny sydd heb weithredaeth leol.

**Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys deuddeg 'cenhadaeth' yn seiliedig ar y rhain,** yn cwmpasu safonau byw; ymchwil a datblygu; seilwaith trafndiaeth; cysylltedd digidol; addysg a sgiliau; iechyd a llesiant; balchder cymunedol; tai; trosedd; ac arweinyddiaeth leol.

Mae'r **Papur Gwyn yn cwmpasu rhai meysydd heb eu datganoli lle bydd Llywodraeth y DU yn gweithredu yng Nghymru**, fel trosedd a band eang, a **meysydd lle mae gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyfrifoldebau**, fel trafndiaeth gyhoeddus ac ymchwil a datblygu. **Mae cynlluniau Llywodraeth y DU yn ymwneud â Lloegr yn unig mewn perthynas â nifer o feysydd datganoledig**, fel iechyd, tai ac addysg, a mater i Lywodraeth Cymru yw sut y mae'n mynd i'r afael â'r heriau yn y meysydd hyn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Godi'r Gwastad, Cymunedau a Thai wedi **ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru** i geisio gweithio gyda Llywodraeth Cymru i oresgyn heriau cyffredin. **Dywedodd** y Prif Weinidog fod y Papur Gwyn yn "ddogfen denau iawn" heb gynllun strategol, a heb y cyllid angenrheidiol i gyflawni ei nodau.

Efallai mai'r agwedd fwyaf gwleidyddol ddadleuol ar y cynigion yw bod **Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau y mae wedi'u cael yn ddiweddar i wario arian ar feysydd datganoledig ledled y DU**, trwy fentrau datblygu lleol/rhanbarthol fel y **Gronfa Codi'r Gwastad** a'r **Gronfa Ffyniant Gyffredin**. Mae Llywodraeth y DU **yn dadlau** y bydd ei dull gweithredu yn cryfhau'r cymorth y mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn ei ddarparu. Mewn cyferbyniad, mae Gweinidog Economi Cymru **wedi datgan** fod "Deddf anghyfansoddiadol y Farchnad Fewnol yn cael ei defnyddio i sarnu datganoli democrataidd drwy ein rhwystro rhag gwneud penderfyniadau am Gymru yng Nghymru".

## **Beth ydym ni'n ei wybod am y Gronfa Ffyniant Gyffredin sydd ar y gweill?**

Dywedodd manifesto'r Ceidwadwyr ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU 2019 y byddai'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd ledled y DU drwy

ddatblygu Cronfa Ffyniant Gyffredin i ddisodli Cronfeydd Strwythurol yr UE. Mae Llywodraeth y DU newydd gyhoeddi **canllawiau cyn lansio** ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Er bod hyn yn rhoi rhywfaint o eglurder ynghylch bwriadau Llywodraeth y DU, mae nifer o gwestiynau i'w hateb o hyd.

Mae Llywodraeth y DU **wedi dweud y bydd yn arwain y gwaith o weithredu'r gronfa ledled y DU, ond y bydd yn trafod rôl y gweinyddiaethau datganoledig. Bydd y gronfa yn gweld nifer o newidiadau o beilot y Gronfa Adnewyddu Cymunedol.**

Yn hytrach na bod ardaloedd yn gwneud cais cystadleuol am gyllid, **bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i bob rhan o'r DU** a bydd angen i Lywodraeth y DU gymeradwyo cynllun buddsoddi i gael mynediad ato. **Nid ydym yn gwybod eto faint y bydd Cymru neu awdurdodau lleol unigol yn ei gael, na'r fethodoleg sy'n cael ei defnyddio i bennu faint y bydd ardaloedd yn ei gael.**

Un o **bryderon** Llywodraeth Cymru yw bod y dull gweithredu a dreialwyd gyda'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol yn 'dull llawer mwy lleoledig ac atomig' oedd heb **ddysgu gwersi** o gylch y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru ar gyfer 2000-06 a welodd ormod o brosiectau heb ddigon o ffocws strategol a rhanbarthol. Mae canllawiau Llywodraeth y DU **yn datgan y caiff awdurdodau lleol Cymru eu gwahodd i gydweithio i ddatblygu cynigion ar draws ardaloedd Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf.**

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y byddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin 'o leiaf' yn cyfateb i swm y Cronfeydd Strwythurol y mae pob cenedl yn ei gael. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru **wedi dweud** y bydd Cymru'n colli £750 miliwn rhwng 2021-22 a 2023-24 o ganlyniad i'r ffaith na fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn disodli'r Cronfeydd Strwythurol yn llawn tan 2024-25, er bod Llywodraeth y DU **yn anghytuno â hyn.**

## **Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â chodi'r gwastad, a pha mor debygol yw cynigion Llywodraeth y DU o gyflawni ei hamcanion?**

Er bod llawer o sefydliadau'n croesawu cyhoeddi'r Papur Gwyn, fe wnaethant hefyd sôn am yr heriau y mae Llywodraeth y DU yn eu hwynebu o ran cyflawni ei nodau. Fe wnaeth y felin drafod Onward, y gwnaeth Gweinidog presennol y DU dros Godi'r Gwastad, yr Undeb a'r Cyfansoddiad **ysgrifennu adroddiad** ar ei chyfer ar godi'r gwastad y llynedd, **ddweud** mai cyflawni yw'r her allweddol, a sut mae'r uchelgeisiau'n trosi i weithredu y tu hwnt i lywodraeth ganolog.



Fe wnaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid **awgrymu** mai'r brif her y mae Llywodraeth y DU yn ei hwynebu o ran cyflawni ei chynlluniau yw sicrhau cyllid digonol a ffocws ar bolisi a diwygio. Heb y rhain, mae'n dweud bod risg bod y Llywodraeth wedi dewis ei chyrchfan heb unrhyw synnwyr o sut mae'n bwriadu cyrraedd yno.

**Dywedodd** y Sefydliad Materion Cymreig fod dull y Papur Gwyn **yn bygwth gwanhau atebolrwydd democrataidd a datblygiad economaidd yng Nghymru**. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sefydlu corff cydgysylltu i weinyddu dyraniadau o'r Gronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru.

Fe wnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol **ganfod nad yw Llywodraeth y DU wedi gwerthuso effeithiau ei pholisiau blaenorol ar dwf economaidd lleol**, er ei bod yn dechrau gwneud hynny nawr, ac mae wedi 'gwastraffu cyfleoedd i ddysgu pa fentrau ac ymyriadau sydd fwyaf effeithiol'. Mae'r ffactorau hyn yn golygu **nad oes gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol gymaint o hyder y bydd y cynlluniau presennol yn rhoi gwerth am arian**.

Mae'n amlwg y bydd codi'r gwastad yn gofyn am ddull hirdymor o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sefydledig rhwng lleoedd ledled Cymru a'r DU ac o fewn y lleoedd hyn. Mae angen aros i weld i ba raddau y bydd dull gweithredu Llywodraeth y DU yn mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r heriau y mae llawer o bobl a chymunedau ledled Cymru yn eu hwynebu, a sut y bydd yn rhyngweithio â pholisi Llywodraeth Cymru mewn meysydd datganoledig.



The image shows the exterior of the Welsh Parliament building. The upper portion of the facade is a curved, cantilevered structure with a ceiling made of horizontal wooden slats. Below this, a glass balustrade with vertical panels runs along the edge. The lower part of the facade is a wall of dark, weathered, horizontal wooden planks. The text 'Senedd Cymru' and 'Welsh Parliament' is mounted on this wall in white, 3D block letters. The sky is blue with white clouds, and a tall, thin white pillar is visible on the right side of the frame.


**Senedd Cymru**  
**Welsh Parliament**



# Cymru, datganoli a rhwymedigaethau rhyngwladol

Cyhoeddwyd: 14 Chwefror 2022

Llun o Traphont Cefn Coed, Merthyr Tudful









## 7. Cymru, datganoli a rhwymedigaethau rhyngwladol

*Cyhoeddwyd: 14 Chwefror 2022*

Mae gan Gymru rwymedigaethau rhyngwladol. Mae'r rhain yn ddyletswyddau ac ymrwymïadau y mae'r DU wedi cytuno arnynt, neu reolau sy'n berthnasol yn gyffredinol. Mae rhwymedigaethau rhyngwladol i'w cael yn gyffredin mewn cytundebau ysgrifenedig ("cytuniadau") rhwng gwladwriaethau neu sefydliadau rhyngwladol.

Nid yn unig y mae'r setliad datganoli yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, ond mae Llywodraethau olynol Cymru wedi ymgorffori cytuniadau proffil uchel sy'n cyd-fynd â'u huchelgeisiau yng nghyfraith Cymru.

Mae'r erthygl hon yn olrhain dull Cymru o fabwysiadu cytuniadau ac yn egluro sut mae'r setliad datganoli yn gweithio i sicrhau bod y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gydnaws.

### Datganoli a rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae Llywodraeth y DU yn negodi ac yn ymrwymo i rwymedigaethau rhyngwladol ar ran y pedair gwlad. Rhaid i'r Llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig gydymffurfio â'r rhain a bod yn gyfrifol am eu gweithredu mewn meysydd datganoledig.

Gall y deddfwrfeydd datganoledig hefyd ymgorffori cytuniadau yn uniongyrchol yn eu cyfraith ddomestig, arfer a gadarnhawyd yn ddiweddar gan y Goruchaf Lys. Mae'r **dyfarniad** yn gadarnhad i Lywodraeth Cymru a'r Senedd, sydd **wedi ennill cydnabyddiaeth ryngwladol** am gynnwys cytuniadau proffil uchel yng ngwead cyfansoddiadol Cymru.

### Dull Cymru o fabwysiadu cytuniadau

Mae Llywodraethau olynol Cymru wedi mabwysiadu llawer o gytuniadau pwysig fel sail ar gyfer llunio polisiau, megis **Cytundeb Paris** y Cenhedloedd Unedig, y **Confensiwn Ffoaduriaid** a llawer o **gytuniadau hawliau dynol**. Defnyddiwch y cwymplenni isod i weld dwy enghraifft.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

---

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn rhan o'i chyfraith ddomestig. Roedd hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisi ac i sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gwybod am hawliau plant a phobl ifanc, yn eu deall ac yn eu parchu.

## Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

---

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** Cymru yn mabwysiadu egwyddorion Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig ac roedd yn **ysbrydoliaeth rhannol wrth i'r Cenhedloedd Unedig** greu Llysgennad Arbennig ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob polisi, gweithred, menter a darn o ddeddfwriaeth gael eu cynllunio a'u darparu drwy lens ei hegwyddor datblygu cynaliadwy a'r saith nod llesiant.

## Cynlluniau Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dau gytuniad y Cenhedloedd Unedig

Mae **Llywodraeth bresennol Cymru** yn bwriadu ymgorffori **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer dileu pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod** a **Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl anabl** yng nghyfraith Cymru.

Mae **dyfarniad y Goruchaf Lys** y soniwyd amdano'n flaenorol yn ymwneud ag ymgorffori dau gytuniad yng nghyfraith yr Alban - CCUHP a **Siarter Ewrop ar gyfer Hunanlywodraeth Leol**. Dywedodd y llys mai mater i Senedd yr Alban oedd ymgorffori'r cytuniadau, ac nid oedd yn cwestiynu hyn.

Daeth y llys i'r casgliad bod darpariaethau penodol yn y Biliau a ddefnyddir i ymgorffori'r cytuniadau y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban. Am ragor o wybodaeth, gweler **adroddiad** a ddarparwyd i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd (adran 8.3).

## Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio

Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Mae'r **Prif Weinidog yn egluro**:

Gan ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried rhwymedigaethau rhyngwladol wrth wneud penderfyniadau, gallent wynebu Adolygiad



Barnwrol neu gamau gan yr Ysgrifennydd Gwladol am fethu â gwneud hynny.

Mae nifer o fecanweithiau yn bodoli i sicrhau bod y camau a gymerir gan Weinidogion Cymru yn gydnaws. Defnyddiwch y cwymplenni isod i ddysgu mwy.

## Gall Llywodraeth y DU ymyrryd

---

Mae gan Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU bwerau i :

- gyfarwyddo Gweinidogion Cymru i gymryd camau i gydymffurfio ag unrhyw rhwymedigaeth ryngwladol; neu
- eu cyfarwyddo i beidio â gweithredu os byddai'n anghydawns; neu
- ddirymu is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru os ystyrir ei bod yn anghydawns â rhwymedigaethau rhyngwladol, neu er budd amddiffyn neu ddiogelwch gwladol.

Mae'r pwerau hyn wedi'u cynnwys yn adran 82 o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**, na chafodd ei defnyddio erioed.

Nid oes sôn yn y setliad datganoli am sefyllfa Gweinidogion Cymru os ystyrir bod camau gweithredu arfaethedig yr Ysgrifennydd Gwladol yn anghydawns â rhwymedigaethau rhyngwladol.

## Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

---

Mae Gweinidogion Cymru, gan gynnwys y Prif Weinidog, a'r Cwnsler Cyffredinol, wedi'u gwahardd yn benodol rhag cymryd camau sy'n anghydawns â hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r ddyletswydd hon i'w gweld yn adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae **Diwygio Deddf Hawliau Dynol 1998**, a ymgorfforodd y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn cyfraith ddomestig, yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU.

## Cymorth i Lywodraeth y DU

---

Mae o fewn cymhwysedd y Senedd i gynorthwyo Llywodraeth y DU mewn perthynas â rhwymedigaethau rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol. Mae i'w weld ym mharagraff 10(3) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Mae'r Prif Weinidog yn disgrifio sut mae hyn yn gweithio mewn gohebiaeth ynghylch y **Confensiwn rhwng y DU a'r Swistir ar gydgyssylltu nawdd cymdeithasol**. Gwnaeth Llywodraeth y DU y cytundeb, sy'n cwmpasu meysydd

o fewn cymhwysedd y Senedd. Mae'r Confensiwn yn gofyn am weithrediad a chydymffurfriad Llywodraeth Cymru ac i Fyrddau Iechyd Lleol Cymru ddarparu'r gofal iechyd yn unol â thelerau'r Confensiwn.

## Cod y Gweinidogion Llywodraeth Cymru

---

Mae paragraff 1.3 **Cod y Gweinidogion** Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â chyfraith ryngwladol a rhwymedigaethau cytuniadau.

## Gwaith craffu'r Senedd ar rwymedigaethau rhyngwladol

Mae'r Senedd fel mater o drefn yn ystyried effaith rhwymedigaethau rhyngwladol ar draws ystod eang o faterion, gan gynnwys **Brexit, newid hinsawdd a ffoaduriaid**.

Mae dwy broses bwrpasol hefyd i asesu eu heffaith. Defnyddiwch y cwymplenni isod i ddysgu mwy.

## Cytundebau rhyngwladol

---

Mae pwyllgorau'r Senedd yn craffu ar gytuniadau drwy **broses bwrpasol** y Senedd. Hyd yma, maent wedi ystyried yr effaith ar Gymru o dros 130 o gytuniadau ar fasnach, etholiadau, pysgodfeydd, porthladdoedd a mwy.

Gallwch olrhain y broses hon **ar gyfer masnach** a **chytundebau anfasnachol** ar wefan y Senedd.

## Fframweithiau cyffredin

---

Mae **fframweithiau cyffredin** yn gytundebau rhwng pedair llywodraeth y DU sy'n nodi sut y byddant yn cydweithio mewn rhai meysydd a lywodraethwyd neu a gydgyssylltwyd yn flaenorol ar lefel yr UE, megis ansawdd aer, diogelwch bwyd a bygythiadau iechyd trawsffiniol.


Mae **pwyllgorau'r Senedd yn ystyried** sut mae rhwymedigaethau rhyngwladol yn cael eu hystyried gan bob fframwaith a sut maent yn darparu i lywodraethau gydweithio ar negodi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn y dyfodol.



# Cymru yn y dirwedd ryngwladol newydd

Cyhoeddwyd: 26 Mai 2021

Llun o Parc Cenedlaethol Eryri, Gogledd Cymru









## 8. Cymru yn y dirwedd ryngwladol newydd

*Cyhoeddwyd: 26 Mai 2021*

Yn ystod y Bumed Senedd, gwelwyd newid dramatig yn rolau Llywodraeth Cymru a'r Senedd mewn perthynas â materion rhyngwladol. Mae ymadawiad y DU â'r UE wedi ail-lunio'r ffordd y mae'r DU yn ymgysylltu'n rhyngwladol ac wedi gofyn am fwy o gydweithredu rhwng y DU a'r llywodraethau datganoledig. O ganlyniad, mae'n ymddangos y bydd rôl y Senedd ym maes materion rhyngwladol yn cynyddu.

Yn ystod y Chweched Senedd, mae disgwyl y bydd y DU yn ymuno ag ystod eang o ymrwymadau rhyngwladol newydd a fydd yn effeithio ar bolsiïau a chyfreithiau datganoledig.

Mae gwaith craffu'r Senedd ar ymrwymadau rhyngwladol yn bwysig. Mae cytundebau rhyngwladol yn aml yn cynnwys rhwymedigaethau pellgyrhaeddol a all effeithio ar fywydau beunyddiol pobl a busnesau yng Nghymru. Mae gallu'r Senedd i basio cyfreithiau hefyd yn cael ei gyfyngu gan yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn cytuno iddo yn rhyngwladol. Hefyd, mae'r ymrwymadau hyn yn llywio gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei pholisïau. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am arwain y trafodaethau ar gytundebau newydd, ond mae'n cydnabod rôl y sefydliadau datganoledig o ran gweithredu cytundebau mewn meysydd datganoledig.

Bydd gwaith craffu gofalus ar gytundebau rhyngwladol yn golygu y bydd gan y Senedd y potensial i ychwanegu gwerth er budd Cymru.

### **Pa gytundebau rhyngwladol newydd y gellir eu disgwyl yn y Chweched Senedd?**

Disgwylir nifer o gytundebau rhyngwladol newydd a fydd o bwys i Gymru yn ystod y Chweched Senedd hon. Bydd y rhain yn cynnwys cytundebau masnach rydd rhwng y DU a'r Unol Daleithiau, Seland Newydd, ac Awstralia, a disgwylir i'r DU ymuno â'r **Cytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP)**.

Yn ystod y Chweched Senedd, mae disgwyl y bydd y DU hefyd yn ymuno ag ymrwymadau rhyngwladol newydd ym meysydd bioamrywiaeth, bwyd, yr amgylchedd morol a newid hinsawdd. Bydd y cytundebau hyn yn cyd-fynd â pherthynas newydd Cymru ag Ewrop.

Dywed Llywodraeth y DU y bydd y cytundebau masnach y mae'n eu negodi yn

cynnig cyfleoedd newydd i fusnesau'r DU, gan gynnwys busnesau yng Nghymru. Bydd cynyddu masnach y DU â gwledydd eraill yn debygol o greu collwyr yn ogystal ag enillwyr. Gallai'r cytundebau newydd hyn ar lefel y DU olygu y bydd busnesau o Gymru yn wynebu mwy o gystadleuaeth ar ffurf mewnfurion, gydag effeithiau gwahanol ar sectorau penodol. Er enghraifft, mae i gytundeb masnach rydd â Seland Newydd y potensial i effeithio'n negyddol ar sectorau amaeth a bwyd wedi'i led-brosesu yn y DU, oherwydd bod gan Seland Newydd fantais gymharol yn y sectorau hyn.

Dyna pam mae gwaith craffu'r Senedd ar gytundebau rhyngwladol yn bwysig. Dywedodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (MADY) yn y Bumed Senedd:

Mae gan y Senedd rôl o ran nodi buddiannau Cymru a, thrwy waith craffu a chynrychioli, sicrhau bod cytundebau'n cael eu gweithredu a'u datblygu mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddiannau gorau posibl i Gymru.

### Effaith bosibl cytundebau masnach rydd ar Werth Ychwanegol Gros yng Nghymru

Cytundeb (ni chyhoeddwyd yr asesiad cwmpasu i'r DU ymuno â'r CPTPP eto)	Newid yn GVA Cymru, newid canrannol yn y tymor hir (tua 15 mlynedd)
<b>DU-UD</b>	Cynnydd o 0.05% i <0.15% neu 0.25% i <0.40% (yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei gytuno o ran rhyddfrydoli tariffau a lleihau mesurau di-dariff)
<b>DU-Awstralia</b>	Cynnydd o 0.00% i <0.05%
<b>DU-Seland Newydd</b>	Cynnydd o 0.00% i <0.05%

### Pa rôl fydd Llywodraeth Cymru newydd yn ei chwarae?

Am y tro cyntaf ers dros 40 mlynedd, mae Brexit yn golygu bod Llywodraeth y DU yn negodi ac yn ymuno â nifer o gytundebau rhyngwladol â gwledydd eraill drwy ei hawl ei hun.

Mae'r setliad datganoli yn golygu bod Llywodraeth y DU yn gyfrifol am negodi



cytundebau rhyngwladol, ac ymrwymo iddynt, ar ran pedair gwlad y DU. Fodd bynnag, unwaith y cytunir arnynt, mater i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru yw arsylwi ar y cytundebau hyn a'u gweithredu mewn meysydd datganoledig.

Cynhaliwyd ymgysylltiad rhwng Llywodraeth flaenorol Cymru a Llywodraeth y DU ar drafodaethau cytundeb masnach y tu allan i'r UE mewn Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach a oedd newydd ei sefydlu bryd hynny. Fodd bynnag, ni chytunwyd hyd yn hyn ar Conordat allweddol ar fasnach sydd i ffurfioli'r ffordd y gall y llywodraethau datganoledig eu hunain gymryd rhan yn y trafodaethau. Yn 2020, **mynegodd pwyllgor yn y Senedd** ei bryder ynghylch yr oedi o ran cwblhau'r trefniadau hyn.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cynnig ffyrdd newydd o weithio i bedair llywodraeth y DU ar gyfer dros 20 o feysydd polisi (gan gynnwys pysgodfeydd, bwyd a'r amgylchedd) o dan ei rhaglen Fframweithiau Cyffredin newydd. Yn rhannol, nod y rhaglen yw sicrhau bod y pedair gwlad yn parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU a chynnig ar yr un pryd gyfleoedd newydd i'r llywodraethau datganoledig gymryd rhan yng ngweithgareddau rhyngwladol y DU, megis cynrychiolaeth mewn cyrff rhyngwladol.

## Sut y gall gwaith craffu'r Chweched Senedd ar faterion rhyngwladol y DU fod o fudd i Gymru?

Heb os, fe newidiodd ymagwedd y Senedd tuag at faterion rhyngwladol yn ystod y Bumed Senedd. Yn y Bumed Senedd, datblygodd y Pwyllgor MADY **broses graffu bwrpasol** ar gyfer cytundebau rhyngwladol. Craffodd y Pwyllgor ar fwy na 100 o gytundebau masnach a chytundebau nad ydynt yn ymwneud â masnach. Cymerodd gamau trwy adrodd ar gytundebau sylweddol, ac fe ymgysylltodd hefyd â Llywodraeth Cymru a phwyllgorau perthnasol mewn seneddau eraill yn y DU ar faterion sydd o ddiddordeb i Gymru.

Enghreifftiau o waith craffu ar gytundebau rhyngwladol gan y Pwyllgor MADY yn y Bumed Senedd:

**Cytundebau masnach:** parhad cytundebau masnach yr UE gan gynnwys gyda Chanada, De Corea a Singapôr, yn ogystal â chytundebau newydd yn y dyfodol sy'n cael eu trafod, megis cytundeb masnach posibl rhwng y DU a'r Unol Daleithiau.

**Cytundebau nad ydynt yn ymwneud â masnach:** hawliau dinasyddion; etholiadau a phleidleisio; pysgodfeydd; porthladdoedd; trafniadaeth awyr, ffyrdd a rheilffyrdd; nawdd cymdeithasol; gwyddoniaeth ac ymchwil; cydweithredu barnwrol; cynhyrchu ffilmiau; a'r gofod.

Bydd gwaith craffu gofalus yn golygu y gall y Chweched Senedd wneud gwahaniaeth i wella gwerth cytundebau rhyngwladol i Gymru. Er enghraifft, trwy roi llais i fuddiannau Cymru mewn sefyllfaoedd lle mae rhwystrau posibl i fasnach a chyfleoedd i wella yn cael eu nodi.

## Sut y gall Llywodraeth Cymru wneud y mwyaf o gyfleoedd newydd mewn materion rhyngwladol?

O'i chymharu â'r Senedd flaenorol, bydd y Chweched Senedd a Llywodraeth Cymru newydd yn gweithredu mewn cyd-destun rhyngwladol a fydd wedi newid yn sylweddol, a hynny o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE ac effaith economaidd COVID-19. Gyda hyn o gefndir, y cytundebau rhyngwladol newydd a'r ffaith bod cysylltiadau rhyngwladol y DU yn esblygu, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried a yw am ddefnyddio ei phwerau datganoledig a'i dylanwad, ac os felly sut, er mwyn hybu Cymru a busnesau Cymru yn rhyngwladol.

Yn ei **strategaeth ryngwladol**, nododd Llywodraeth Cymru flaenorol ei huchelgais i godi proffil a dylanwad Cymru yn y byd, yn ogystal â thyfu economi Cymru trwy gynyddu allforion a mewnfuddsoddi. Bwriad Llywodraeth Cymru yw i'w rhwydwaith o 21 **swyddfa ryngwladol** chwarae rhan bwysig wrth hybu Cymru yn rhyngwladol.

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gynigir gan gytundebau rhyngwladol newydd y DU a'r newid yn y cyd-destun rhyngwladol, mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru newydd ail-ystyried ei phresenoldeb rhyngwladol, lleoliad y presenoldeb hwnnw, sut mae ei pherthynas â chyrrff ac adrannau Llywodraeth y DU yn gweithio, a ffocws unrhyw strategaeth.

## Pennod ryngwladol newydd i Gymru?

Bydd y ffordd y mae buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y dirwedd ryngwladol newydd yn fater o bwys yn y Chweched Senedd.

Bydd ymrwymadau rhyngwladol newydd mewn meysydd datganoledig pwysig. Bydd angen i Aelodau o'r Senedd newydd ddeall beth y mae'r rhain yn ei olygu i Gymru a'u hetholwyr.


**Dywedodd Llywodraeth Cymru** flaenorol fod ymadawiad y DU â'r UE ac effaith economaidd COVID-19 yn golygu ei bod yn hanfodol i Gymru godi ei phroffil rhyngwladol. Bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru benderfynu a yw'n rhannu'r farn hon ac, os felly, sut y bydd yn cyflawni unrhyw uchelgeisiau rhyngwladol.



# Y Senedd mewn undod a Wcrain

Cyhoeddwyd: 3 Mawrth 2022

Llun o'r Senedd, Bae Caerdydd









## 9. Y Senedd mewn undod ag Wcráin

Cyhoeddwyd: 3 Mawrth 2022

Mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi cael ei gondemnio'n rhyngwladol.

Mae seneddau ledled y byd **wedi rhoi stop ar eu trafodion** i gondemnio ymosodiad Rwsia, **wedi goleuo eu hadeiladau** mewn undod **ac wedi cymeradwyo** protestwyr yn Wcráin a Rwsia.

Ar 1 Mawrth, ychwanegodd Senedd Cymru ei llais. Mewn **Neges Dydd Gŵyl Dewi**, galwodd y Llywydd ar y Senedd i "oedi ac ystyried digwyddiadau rhyngwladol, a chydabod gydnabod pwysigrwydd ein strwythurau democrataidd ac eto pa mor fregus maent yn gallu bod".

Mae'r erthygl hon yn crynhoi ymatebion Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Rydym yn crynhoi pa bwerau sydd gan Cymru yng nghyd-destun materion sydd wedi codi yn sgil y gwrthdaro. Mae'r erthygl yn trafod y camau nesaf ac yn disgrifio **uchelgais ddatganedig** Llywodraeth Cymru i ddod yn "genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang" ac yn "genedl noddfa sydd wedi ymrwymo i hawliau dynol a hybu heddwch".

### Cwestiwn Brys

Yr eitem gyntaf yng nghyfarfod llawn y Senedd ar 1 Mawrth oedd **cwestiwn brys** ar yr effaith ar ddinasyddion a busnesau yng Nghymru yn sgil ymosodiad Rwsia.

#### **Dywedodd y Prif Weinidog:**

Mae pobl Cymru wedi'u dychryn gan yr ymosodiad ar Wcráin, ac, fel cenedl noddfa, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi pobl Wcráin. Mae Cymru yn agored i roi croeso a diogelwch i'r rhai sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth.

Aeth ymlaen i ddweud:

Mae gennym ni gannoedd o bobl o Wcráin yn byw yng Nghymru sydd â ffrindiau a theulu bellach ar y rheng flaen, ac mae gwaith y gallwn ni ei wneud yma i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod bod ganddyn nhw, yng Nghymru, gefnogaeth ein cenedl gyfan wrth iddyn nhw wynebu'r dyddiau gofidus dros ben hynny o'n blaenau.

Eglurodd fod Llywodraeth Cymru yn:

- Darparu £4 miliwn mewn cymorth ariannol a dyngarol;
- Asesu pa offer meddygol nas defnyddir y gellid eu darparu;

- Barod i groesawu pobl sydd angen ac eisiau gadael Wcráin ar yr adeg hon;
- Annog Llywodraeth y DU i'w gwneud yn haws i bobl Wcráin ddod i'r DU; ac
- Annog pawb sy'n gallu i gyfrannu at y Groes Goch Brydeinig, UNICEF y DU neu UNHCR y DU.

Bu'r Prif Weinidog yn trafod ymateb Llywodraeth Cymru ag arweinwyr yr UE **ym Mrwsel ddydd Mercher**. Yn flaenorol **roedd wedi dweud** bod yn rhaid i bobl Cymru fod yn barod i wneud ambell aberth er mwyn sefyll mewn undod â phobl Wcráin.

**Dyweddodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS**, sydd â chysylltiadau agos â'r Wcráin:

A gaf i ddiolch yn bersonol i holl bobl Cymru am eu negeseuon o gefnogaeth, eu undod a'u haelioni dros yr wythnos ddiwethaf, i mi ac yn enwedig i'r gymuned Wcrainaidd yng Nghymru. [...]

Mae'r rhyfel yn Wcráin wedi troi'n rhyfel yn erbyn pobl Wcráin, ac mae ein holl feddyliau gyda'r bobl hynny sydd wedi codi arfau i amddiffyn democratiaeth ac i ymladd dros ryddid, gan gynnwys aelodau o'm teulu fy hun.

Rhoddodd **Aelodau'r Senedd** gymeradwyaeth wrth iddynt rannu eu profiadau personol, eu cefnogaeth i Wcráin ac i **ymchwiliad y Llys Troseddol Rhyngwladol i droeddau rhyfel**. Roedd rhai wedi mynd i **rali y tu allan i'r Senedd** ar 28 Chwefror, ynghyd ag aelodau o'r cyhoedd.

## Holl bleidiau gwleidyddol y Senedd yn condemnio'r ymosodiad

Mae arweinydd pob plaid yn y Senedd wedi codi eu llais yn erbyn yr ymosodiad.

Galwodd **Andrew RT Davies AS**, Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, ar y Gorllewin i sefyll ynghyd â chenhedloedd y byd wrth amddiffyn Wcráin, ac i filwyr Rwsia gael eu hanfon yn ôl y tu hwnt i'r ffiniau rhyngwladol.

**Ysgrifennodd Adam Price AS**, Arweinydd Plaid Cymru, na allwn ni beidio ag ysgwyddo dim cyfrifoldeb. Aeth ymlaen i ddweud na allwn ddiystyru Wcráin i fod yn wlad dramor arall nad ydym yn gwybod dim amdani. Dywedodd y bydd yr hyn sy'n digwydd yn Wcráin yn atseinio ledled y byd am flynyddoedd i ddod. Galwodd i nifer o fesurau gael eu cymryd, gan gynnwys embargo economaidd ar Rwsia.

**Dyweddodd Jane Dodds AS**, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ei fod yn ddiwrnod tywyll i Ewrop a'r byd.



## Sut mae materion rhyngwladol yn cael eu trin gan y Senedd?

Mae'r Senedd yn ystyried effaith materion rhyngwladol ar draws ystod eang o faterion, megis **Brexit, newid hinsawdd a ffoaduriaid**.

Dyma'r pwyllgorau sy'n gyfrifol am faterion posibl sy'n codi yn sgil y gwrthdaro:

- Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am faterion allanol, gan gynnwys cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae wedi ystyried cytundeb rhwng y **DU ac Wcráin** ar ddarparu cyllid yr hyn y gall llynges Wcráin ei wneud, a rhwng y **DU a Rwsia** ar atal digwyddiadau ar y môr rhwng llongau milwrol ac awyrennau;
- Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn gyfrifol am ffoaduriaid, ceiswyr lloches a hawliau dynol, ac mae wedi **cyfnewid gohebiaeth** â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch pobl sy'n ffoi o Afghanistan;
- Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol **ymchwiliad undydd** i gysylltiadau rhyngwladol Cymru; a
- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig sy'n gyfrifol am gytundebau masnach ryngwladol. Mae Cadeirydd y Pwyllgor, **Paul Davies AS**, wedi croesawu'r cyfyngiadau a roddwyd ar fasnach â Rwsia, gan siarad yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o'r Senedd dros Breseli Sir Benfro.

## Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud?

O dan setliad datganoli Cymru, mae agweddau allweddol ar unrhyw ymateb i'r gwrthdaro yn cael eu cadw i Lywodraeth y DU ac felly mae Llywodraeth Cymru yn gyfyngedig yn yr hyn y gall ei wneud o ran gweithredu ar ei phen ei hun yn llwyr.

Serch hynny, mae llawer y gall ei wneud ac y mae am ei wneud.

Er bod **cysylltiadau rhyngwladol** yn cael eu cadw i Lywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi bod yn awyddus i gymryd safiad ar faterion byd-eang, fel y nodir yn ei **strategaeth ryngwladol 2020**. Mae'r strategaeth yn disgrifio "cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang" a "chededl noddfa sydd wedi ymrwymo i hawliau dynol a hybu heddwch".

Cyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw **mewnfudo**, ond mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n dod i Gymru yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus a chymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill. Yn 2019, **datganodd Llywodraeth Cymru** y byddai Cymru yn dod yn 'Genedl Noddfa' gyntaf

y byd; cynllun wedi ei **ardystio gan y Cenhedloedd Unedig**.

Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio **â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU** a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu mewn meysydd datganoledig. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei gweithredoedd yn parhau i fod yn gydnaws, gan gynnwys â chytundebau hawliau dynol a chytundebau sy'n diogelu ffoaduriaid. Ar 1 Mawrth, **roedd datganiad y Prif Weinidog** yn cyfeirio at rwymedigaethau moesol a chyfreithiol y DU o dan **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ffoaduriaid 1951**. Gofynnodd i Brif Weinidog y DU "sicrhau ffyrdd syml, cyflym, diogel a chyfreithiol o gael noddfa yn y DU, a hynny ar frys."

Mae'n bosibl y caiff Llywodraeth Cymru ei thynnu i **elfennau eraill o'r gwrthdaro** yn Wcráin, fel y gwelir yn **adroddiadau'r BBC** am long yn cario cargo o Rwsia yn cael ei dargyfeirio o borthladd Aberdaugleddau, neu effeithiau sancsiynau economaidd.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r Senedd yn debygol iawn o ystyried y datblygiadau sy'n codi yn y dyfodol wrth i'r sefyllfa yn Wcráin ddatblygu. Mae cynnig **wedi ei gyflwyno** ar gyfer dadl ar 9 Mawrth gan Darren Millar AS i gondemnio'r ymosodiad, i fynegi undod â phobl Wcráin ac i groesawu gweithredoedd Llywodraeth Cymru.

Yn y dyddiau a'r wythnosau nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at roi'r cynlluniau a gyhoeddwyd yr wythnos hon ar waith, gan gynnwys paratoi i groesawu ffoaduriaid i Gymru. Lansiodd ymatebion tebyg i'r sefyllfaoedd diweddar yn Afghanistan a Syria.

Mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn un difrifol. Dyma ryfel modern ar bridd Ewrop sydd wedi chwalu'r drefn fyd-eang mewn ychydig ddyddiau. I Gymru a'r DU, mae ei heffeithiau'n debygol o fod yn bellgyrhaeddol ac yn debygol o atseinio'n fyw iawn yn ein plith am gyfnod hir.



# Cenedl Noddfa: ymateb i'r argyfwng dyngarol yn Wcráin

Cyhoeddwyd: 9 Mawrth 2022

Llun o hen lwybr y Goets Fawr yn y Waun, Wrecsam.







ESO I CYMRU

WELCOME

WALES



## 10. Cenedl Noddfa: ymateb i'r argyfwng dyngarol yn Wcráin

Cyhoeddwyd: 9 Mawrth 2022

Rwy'n gweithio ym maes argyfwng ffoaduriaid ers deugain mlynedd bron, a phrin y gwelais cynifer yn ffoi mor gyflym.

Filippo Grandi, Uchel Gomisiynydd Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig, **yn siarad ar 3 Mawrth 2022.**

Ar 24 Chwefror ymosododd lluoedd Rwsia ar Wcráin. Ar 7 Mawrth, **dywedodd asiantaethau monitro'r Cenhedloedd Unedig fod dros 1.5 miliwn o ffoaduriaid** wedi ffoi oherwydd yr ymladd. Mae'n debyg y bydd nifer y ffoaduriaid yn parhau i gynyddu dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Mae **Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid** yn amcangyfrif y gallai dros 4 miliwn o bobl ffoi o Wcráin i chwilio am ddiogelwch a chymorth.

Wrth i'r niferoedd barhau i gynyddu, mae gwledydd ar hyd a lled y byd wedi bod yn ymateb i'r argyfwng dyngarol drwy ddarparu bwyd, dillad, a chyflenwadau meddygol y mae mawr eu hangen. Mae llawer o wledydd, yn enwedig y rhai sy'n rhannu ffin ag Wcráin, hefyd wedi cynnig noddfa i'r rhai sy'n ffoi rhag y gwrthdaro.

Mae'r erthygl hon yn crynhoi'r ymateb i'r argyfwng dyngarol sy'n datblygu'n gyflym ac yn manylu ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i helpu i groesawu ffoaduriaid i Gymru. Mae'n adeiladu ar ein **herthygl flaenorol**, a ddisgrifiodd ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru a'r hyn y mae Aelodau o'r Senedd wedi'i wneud i ddangos eu bod yn sefyll mewn undod ag Wcráin.

### Yr ymateb rhanbarthol

Mae mwy na hanner y rhai sydd wedi gadael y wlad oherwydd y gwrthdaro wedi ffoi i Wlad Pwyl, ac mae eraill wedi teithio i wledydd cyfagos gan gynnwys Hwngari, Moldofa, Romania a Slofacia. Mae **porthol data** a sefydlwyd gan y Cenhedloedd Unedig yn rhoi'r manylion diweddaraf am sefyllfa'r ffoaduriaid. Gwaherddir dynion rhwng 18-60 oed rhag gadael Wcráin, felly mae llawer o'r ffoaduriaid yn ferched a phlant.

Mae'r **Cynllun Ymateb Rhanbarthol amlasiantaeth i Ffoaduriaid** yn amlinellu'r ymateb a'r camau sy'n cael eu cymryd i hybu ymdrechion y gwledydd hynny i helpu pobl sy'n ffoi o Wcráin.

## Cymorth i ffoaduriaid gan yr UE a'r DU

Er y gall ffoaduriaid aros mewn gwledydd cyfagos am beth amser yn y gobaith y cânt ddychwelyd adref, mae'n bosibl y bydd llawer yn dewis gadael a theithio i rywle arall. Bydd gan lawer ohonynt gysylltiadau â'r UE a'r DU neu bydd aelodau o'u teulu yn byw yno. Fe wnaeth y Comisiwn Ewropeaidd roi'r **Gyfarwyddeb Diogelu Dros Dro** ar waith, gan roi **diogelwch dros dro** yn yr UE i'r rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel, rhoi trwydded breswyllo iddynt a hawl iddynt gael addysg ac ymuno â'r farchnad lafur.

Cafodd Llywodraeth y DU **ei beirniadu** am ei hymateb, a galwodd nifer arni i lacio'r gofynion fisa er mwyn caniatáu i ragor o bobl o Wcráin ddod i'r DU.

Ar 28 Chwefror, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cartref yr ymdrechion i gynorthwyo gwladolion Prydeinig a'u teuluoedd i adael Wcráin. Roedd yn caniatáu i ddibynyddion gwladolion Prydeinig sy'n byw yn Wcráin wneud cais am fisa drwy'r lleoliad dros dro yn Lviv neu ganolfannau ymgeisio mewn gwledydd cyfagos. Fel rhan o'r system mewnfudo ar sail pwyntiau, gostyngwyd y gofynion iaith a'r trothwyon cyflog er mwyn sicrhau bod modd cynorthwyo rhagor o bobl.

At hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

We are giving British nationals and any person settled in the UK the ability to bring over their immediate Ukrainian family members. Through this extension alone, I can confirm that an additional 100,000 Ukrainians will be able to seek sanctuary in the UK with access to work and public services.

Gan amddiffyn penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â hepgor yr angen i bobl Wcráin gael fisa llawn, dywedodd ei bod yn hanfodol cadw dinasyddion Prydain yn ddiogel o ystyried bod milwyr Rwsia yn awr yn ymledu'n ddyfnach i Wcráin ac yn gwrthdaro â lluoedd Wcráin.

Ar 1 Mawrth, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol **y wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd**. Gan ymateb i bryderon parhaus y byddai gofyn am dystiolaeth fiometrig yn creu oedi diangen, dywedodd fod capasiti'r canolfannau ymgeisio am fisa wedi'i ehangu i fodloni'r galw cynyddol.

## Pecyn cymorth dyngarol

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cartref **becyn cymorth dyngarol pwrpasol**, sy'n cynnwys **cynllun am ddim i deuluoedd o Wcráin**, sy'n:



- caniatáu i wladolion Prydeinig a phobl sy'n breswylwyr sefydlog yn y DU ddod â grŵp ehangach o aelodau'r teulu i'r DU
- caniatáu i rieni, neiniau a theidiau, plant sy'n oedolion, brodyr a chwiorydd, ac aelodau agos o'u teulu ymuno ag aelodau'r teulu yn y DU
- caniatáu i'r rhai sy'n ymuno ag aelodau'r teulu weithio a chael mynediad at arian cyhoeddus am y 12 mis cychwynol.

Ynghyd â **llwybr nawdd dyngarol, a fydd**, meddai yn gwneud y canlynol:

[...] open up a route to the UK for Ukrainians who may not have family ties with the UK, but who are able to match with individuals, charities, businesses and community groups. Those who come under this scheme will also be granted leave for an initial period of 12 months, and will be able to work and have access to public services.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y nodir yn ein **herthygl flaenorol** ar y gwrthdaro, er nad yw polisi mewnfudo wedi'i ddatganoli i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu safiad cryf ar gynorthwyo ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Yn 2019, **dywedodd Llywodraeth Cymru** y byddai Cymru yn dod yn 'Genedl Noddfa' gyntaf y byd; cynllun wedi ei ardystio gan y Cenhedloedd Unedig.

Mae **awdurdodau lleol Cymru**, cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector wedi bod yn **allweddol** yn yr ymdrech i gynorthwyo ceiswyr lloches a ffoaduriaid ers cyflwyno **Deddf Mewnfudo a Lloches 1999**. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi cynnig cymorth i geiswyr lloches a ffoaduriaid drwy gynlluniau adsefydlu Llywodraeth y DU, gan gynnwys **y rhai sy'n ffoi o Affganistan** a'r rhai sy'n cyrraedd drwy **Cynllun Fisa i Wladolion Prydeinig yn Hong Kong**.

Mae Llywodraeth Cymru ac Aelodau o'r Senedd o bob plaid wleidyddol wedi datgan cefnogaeth gref i gynnig noddfa yng Nghymru i'r rhai sy'n ffoi o Wcráin.

Ar 1 Mawrth, **dywedodd y Prif Weinidog** "fel cenedl noddfa, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi pobol Wcráin. Mae Cymru yn agored i roi croeso a diogelwch i'r rhai sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth".

Ysgrifennodd y Prif Weinidog hefyd at Brif Weinidog y DU yn awgrymu'r camau y dylai Llywodraeth y DU eu cymryd i ddarparu cymorth, gan gynnwys: dileu'r gofynion i bobl o Wcráin ddangos tystiolaeth fiometrïg cyn gadael Wcráin, ac **ymestyn trwyddedau teulu Cynllun Setliad yr UE** y tu hwnt i 29 Mawrth i ganiatáu i ragor wneud cais. Ar 3 Mawrth, cynhaliwyd cyfarfod rhwng Gweinidogion

Cymru a chynrychiolwyr llywodraeth leol a'r trydydd sector i drafod i ba raddau roeddent yn barod i helpu'r rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel. Cadarnhaodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod pawb yn benderfynol o gynnig pob cymorth posibl ac y byddai rhagor o wybodaeth ar gael maes o law.

Ar 3 Mawrth cynhaliodd **Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** y Senedd gyfarfod ac anfonodd y **Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol** **lythyr at Brif Weinidog y DU** yn annog Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth dyngarol i bobl Wcráin, "y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i ddarparu".

Er bod cynifer yn barod i ddatgan cefnogaeth, gall fod yn anodd sicrhau bod ffoaduriaid yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i adsefydlu, yn enwedig ar adeg pan fo awdurdodau lleol yn parhau i gynorthwyo ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n cyrraedd Cymru drwy gynlluniau eraill.

Galwodd Mark Isherwood AS **ar y Prif Weinidog** i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol i'w galluogi a'u hannog i gamu ymlaen a chynnig cymorth i ffoaduriaid yn gynt nag a ddigwyddodd gyda rhaglen Syria.

Mae'r Senedd yn cynnal **dadl** heddiw (dydd Mercher 9 Mawrth) ar yr ymosodiad.